Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Chwefror 2018.

1 Presennol – John Jones (Cadeirydd) Anwen Humphreys – Garndolbenmaen, Richard Williams – Prenteg, Edward Evans – Bryncir, Eifion Williams, Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Huw Pritchard, Delyth Evans – Pentrefelin. Faris Raouf Cymru1 Cyf.

2 Ymddiheuriadau – Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Gareth Jones, Gwilym Evans, Maldwyn Owen, Clifford Williams, Amanda N Owen, Megan Lloyd Williams, Dafydd Thomas, Richard Parry.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – eitem 12 Delyth Evans – aelod o bwyllgor Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Gwenno Emlyn Huws – aelod o staff yn Ysgol y Gorlan.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 4/1/18. Richard Williams yn datgan eu cywirdeb ac Anwen Humphreys yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

[redacted] Eitem caeëdig.

Penmorfa – gwaith wedi cychwyn i ddatrys problem y dŵr sy'n cronni.

Garndolbenmaen - lamp stryd heb gael sylw. Clerc i gysylltu eto gyda'r Adran Golau Stryd.
Ysgubo'r lôn - wedi cael ei ysgubo 2 ddiwrnod yn olynol.

Pentrefelin – arwyddion tân gwyllt wedi cael eu tynnu lawr.

Mesurau rheoli risg yn gysylltiedig ar wefan - derbyniwyd ateb gan Unllais Cymru yn nodi mae'r unig risg yw un cyllidol – "y gost o redeg y wefan yn codi".

Mewnfudwyr – cael manylion pobl sy'n symud i'r ardal - mae Adran Drethiant Cyngor Gwynedd wedi trosglwyddo'r cais i'r Adran Rhyddid Gwybodaeth. Disgwylir ateb ganddynt erbyn 12/2/18.

Materion Priffyrdd – Rhagfyr 2017

Llifogydd Cae Llyn – mater wedi ei drosglwyddo i sylw Tîm Draenio Tir y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

Sbwriel ger Tŷ Newydd – cyfeiriwyd at Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol.

B4411 – Cyffordd Pont Llecheiddior – Bryn Efail Isaf – cyfeiriwyd at y Gwasanaeth Trafnidiaeth sy'n ystyried damweiniau a chynnal astudiaethau diogelwch.

Lôn Llecheiddior Uchaf – wedi ei ychwanegu at y rhestr waith archwilio yn dilyn y llifogydd.

Prenteg – gwaith ger Aberdeunant wedi ei gwblhau. Gwaith ger Cerrig y Rhwydwr yn cael ei ymgymryd ar hyn o bryd.

Golan – y ffordd wedi ei nodi ar y rhestr waith arwisgo. Y gwaith yn ddibynnol ar y sefyllfa gyllidol 2018/2019.

Pont Afon Ddu Cwmystradllyn – gwaith wedi ei gwblhau.

Rhiw Cefn Coch Isaf – gwaith wedi cael ei nodi.

Cefn Peraidd a Capel Bethel – angen agor y ffosydd.

Adnewyddu polion presennol – yn cael ei gynnwys ar y rhaglen waith.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Gwilym Evans yn nodi fod y gwaith ar Bont Cerrig y Rhwydwyr a Phont yr Afon Ddu wedi cael ei ddatrys dros dro. Y neges wedi ei drosglwyddo i'r Adran Priffyrdd.

7 Mynwentydd – Dim i'w adrodd.

8 Llwybrau Cyhoeddus - Dim i'w adrodd.

Llwybr ger Canolfan Golan - Clerc i gysylltu gydag Idris i'w holi ynglŷn â'r gwaith ar y llwybr.

9 Adroddiad Pentrefi –

Penmorfa
Dŵr yn cronni - Problem o ddŵr yn cronni mewn rhan arall o'r pentref. Clerc i gysylltu gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn iddynt gysylltu gyda Gwenno Huws i drafod y mater.

Garndolbenmaen
Adroddwyd nad yw Tai Bro Gwgan wedi cael eu paentio.

Pentrefelin
Angen glanhau'r lôn o Bont Wern i fyny at Garth Morthin.

Loriau wedi gyrru ar y darn gwyrdd ar ochor y lonydd.

Graffiti anweddus ar y blwch postio wrth geg Bont Wern.

Bryncir

Gwrych wedi tyfu yn Nhŷ'r Stesion ac nid yw'n bosib gweld y bws o'r lloches bws.

Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd a'r Swyddfa Bost.

Camerau Diogelwch

Adroddwyd fod gan yr heddlu arian i osod 4 camera diogelwch yn yr ardal. Clerc i gysylltu gyda Dewi Evans, Swyddog Troseddau Cefn Gwlad, Heddlu Gogledd Cymru i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf.

10 Gwefan

Croesawyd Faris Raouf Cymru1 Cyf i'r cyfarfod. Adroddwyd fod y cywiriadau/newidiadau wedi cael eu gwneud i gynnwys y wefan. Bydd y Rheolau Sefydlog yn cael ei ychwanegu ar ôl cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Mawrth.

E-bost - Penderfynwyd peidio cynnwys cyfeiriadau e-bost. Rhifau ffôn y Cynghorwyr fydd yn ymddangos ar y wefan. Gwenno Huws yn cynnig a Richard Williams yn eilio.

Gobeithir lansio'r wefan ym mis Ebrill.

Clerc i yrru Cofnodion Medi 2017 - Ionawr 2018 a Chyfrifon 2016 - 2017 at Faris.

11 Tendrau – trafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

12 Rhoddion Ariannol – Penderfynwyd rhoi rhoddion i'r mudiadau canlynol –

£300 – Neuadd Garndolbenmaen, Canolfan Pentrefelin, Canolfan Gymdeithasol Golan, Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch, Canolfan Prenteg.
£150 – Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog, Cylch Meithrin Tremadog, Cyfeillion Ysgol y Gorlan.
£100 – Clwb Peldroed Llanystumdwy, Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018.

13 Cae Chwarae Penmorfa

Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn cyfarfod gyda'r Pwyllgor. Gwenno Huws i holi aelodau'r pwyllgor am ddyddiadau cyfleus ac yna cysylltu gyda'r Clerc er mwyn iddi hi drefnu'r cyfarfod.

Clerc i yrru copi o'r llythyr Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r pwyllgor dyddiedig 17/7/2013 at Gwenno Huws.

14 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Rhaglen waith Chwefror 2017 – Pentrefelin.
Adroddiad Archwilio Llifogydd Plas Tirion Pentrefelin.
Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor – holi RP os yw'n aelod.

b Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad rhanddeiliaid (dyddiad cau 31/1/18) – dosbarthwyd 15/1/18.

c Cyngor Iechyd Cymuned – Cofrestru Meddygon Teulu yng Nghymru – Clerc i ateb yn cefnogi'r cais i newid y drefn cofrestru.

ch Cyngor Iechyd Cymuned – Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys – Clerc i ateb.

d Unllais Cymru – Arolwg Cynghorau. Cwblhau mis nesaf.

15 Cynllunio
Rhestrau 8/1, 15/1, 22/1/18. Ychwanegwyd rhestr 26/1/18.

Ceisiadau Cynllunio
Ychwanegwyd Cais NP/16/450
Newid defnydd o ystafell fwyta/byw llawr gwaelod i ystafell de a galeri, newid defnydd gardd i ddarparu seddau ystafell de allanol, a lle parcio ceir arfaethedig – Tyddyn Mawr, Cwmystradllyn, Garndolbenmaen. Dim gwrthwynebiad. Clerc i gysylltu gyda Chynghorwyr Golan.

Er gwybodaeth NP2/16/L304E
Rhyddhau Cytundeb Rhan 106 dyddiedig 27ain Fedi 2007 sy'n cyfyngu meddiannaeth yr anecs i a ddim ar wahân i Tŷ'r Ysgol Cwm Pennant. LL51 9AX. Cafodd y cais ei dynnu'n ôl ar 30/1/18.

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Monitro'r gyllideb – Cysoni'r banc Hydref – Rhagfyr 2017. Dau Gynghorydd i wirio'r llyfrau yn y cyfarfod nesaf.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 225.64
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.40
Costau postio/cetrys ayb	= £ 171.26

Ychwanegwyd

Gwasg y Bwthyn	= £ 9.60
Rhoddion Ariannol	= £2300.00

Derbyniadau – dim.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £20,274.93 Cyfredol - £4,847.13

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Cofrestru Meddygon Teulu yng Nghymru.
- Amseroedd Aros Mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.